**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU - DYDD IAU, 12 MAWRTH 2020 DYDD IAU, 12 MAWRTH 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: B. SUMMERS (CADEIRYDD)

Councillors M. Moore (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
D. Hancock
W. Hodgins
J. P. Morgan
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
G. Thomas
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd datganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **GWYBODAETH PERFFORMIAD CHWARTEROL CHWARTER 3 HYDREF – RHAGFYR 2019**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>Amlinellodd y Rheolwr Gwasanaeth berfformiad cyfredol y Cyngor fel sy'n dilyn:<br><br>**Ffigur 1** – mae'r Cyngor yn y safle 1af yn nhermau ei berfformiad ar gyfer penderfynu ceisiadau ar amser h.y. o fewn 8 wythnos neu o fewn y cyfnod a gytunwyd gan yr ymgeisydd. Mae hyn yn gyfystyr â 100% o'r ceisiadau, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 86%.<br><br>**Ffigur 2** – roedd y Cyngor yn y 5ed safle am y mesur hwn o ran perfformiad gan ei bod ar gyfartaledd yn cymryd 60 diwrnod o gofrestru i benderfyniad i'r Cyngor benderfynu ar gais, tra mai cyfartaledd Cymru oedd 87 diwrnod.<br><br>**Ffigur 3** – gwnaed 38% o benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhelliad swyddogion. Cyfartaledd Cymru oedd 10%.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at Ffigur 3 a dweud mai dim ond 3 penderfyniad a wnaed yn groes i argymhelliad swyddog sy'n rhif bach iawn.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y Cyngor yn gyson yn y dau isaf yn nhermau'r mesur perfformiad hwn. Nodwyd y cynhaliwyd adolygiad o'r cynllun dirprwyo ar gyfer materion gorfodaeth yn y flwyddyn flaenorol a bwriedir cynnal adolygiad tebyg yng nghyswllt y cynllun dirprwyo ar gyfer ceisiadau cynllunio yn yr ychydig fisoedd nesaf.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol, | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi Gwybodaeth Perfformiad Chwarter 3 a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 5** | **<u>APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DIWEDDARIAD DNS MAWRTH 2020</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>Ymunodd y Cynghorydd D. Wilkshire â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>**<u>C/2019/0090: APP/X6910/A/19/3243676 – Caeau Seren, ger Heol y Mynydd, Glynebwy</u>**<br><br>Mynegodd Aelod ei gwerthfawrogiad i'r Rheolwr Gwasanaeth a swyddogion am yr ymateb rhagorol a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Cynllunio yng nghyswllt yr apêl arbennig yma.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 6** | **<u>RHESTR CEISIADAU Y PENDERFYNWYD ARNYNT DAN BWERAU DIRPRWYEDIG 21 IONAWR 2020 A 21 CHWEFROR 2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes.<br><br>**<u>C/2020/0002 – Tesco Stores Cyf., Stryd y Castell – Cadw Gwefrydd Cyflym</u>**<br><br>Gofynnodd Aelod os oes unrhyw ganllawiau neu bolisi ar gael ar osod mannau gwefru trydan er mwyn rhoi eglurdeb os oes angen caniatâd cynllunio ai peidio gan y gallai hyn atal mewnlif o geisiadau ôl-weithredol. Nodwyd nad oes unrhyw fath 'cyffredinol' o wefrydd.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau nad oes polisi cynllunio penodol ar gyfer mannau gwefru trydan. Caiff gwaith ei wneud yn rhanbarthol yng nghyswllt ymarferoldeb ymestyn mannau gwefru ar draws rhai datblygiadau.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | mai dim ond rhai mathau o wefrydd sydd angen caniatâd cynllunio a gellir diwygio rheoliadau adeiladau i'w gwneud yn ofynnol cael caniatâd ar gyfer rhai datblygiadau newydd. Gallai fod newid i'r rheoliadau adeiladu yn ddiweddarach yn y flwyddyn ond disgwylir drafft ganllawiau ar y mater gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r rhestr o geisiadau a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig rhwng 21 Ionawr a 21 Chwefror 2020. | |
| **No. 7** | **<u>ADRODDIAD CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu.<br><br>Esboniwyd y ceisiadau cynllunio dilynol i Aelodau gyda chymorth sleidiau.<br><br>Ymunodd y Cynghorydd G. Thomas â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>**<u>Cais Rhif C/2019/0330 – Uned 2, Stad Ddiwydiannol Tafarnaubach, Tafarnaubach – Newid Defnydd Adeiladau Presennol o Ganolfan Addysg a Hyfforddiant i Ddefnydd Diwydiannol B2 ar gyfer Ailgylchu ac Adfer WEEE (Offer Electronig a Thrydanol Gwastraff) a Deunyddiau a Chynnyrch Cysylltiedig</u>**<br><br>Esboniodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu fod hwn yn adroddiad dilynol yng nghyswllt y cais cynllunio gwreiddiol a gyflwynwyd ac a drafodwyd yn fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror 2020.<br><br>Roedd Aelodau wedi codi pryderon am effaith bosibl y cynnig ar breswylwyr cyfagos. Felly penderfynwyd gohirio penderfyniad ar y cais yn disgwyl ymweliad safle canfod ffeithiau. Roedd yr adroddiad dilynol wedi trafod y materion o gonsyrn a godwyd yn y cyfarfod hwnnw.<br><br>Nodwyd y cynhaliwyd dadansoddiad lle troi a ddangosodd y byddai cerbydau nwyddau trwm (HGV) yn medru troi'n ddiogel o fewn libart y safle. Roedd yr Awdurdod Priffyrdd wedi cadarnhau fod y symudiadau traffig yn gysylltiedig gyda'r defnydd arfaethedig yn debyg i'r rhai ar gyfer defnydd blaenorol yr adeilad ac heb godi | |

unrhyw wrthwynebiad yng nghyswllt y mater hwn.

Wedyn gofynnwyd am farn y Pwyllgor a rhoddodd Aelodau sylwadau/cwestiynau fel sy'n dilyn:

- **Sbwriel -** Dywedodd Aelod gyda chartrefi mor agos at y safle, bod preswylwyr yn fwyaf pryderus am fater sbwriel na'r cyfeintiau bach o hylif fflamadwy a fyddai'n cael eu cadw yn y safle.

- **Sgrinio –** A fyddid yn darparu sgrinio sŵn?

  Cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu y cynigiwyd amod o fewn yr adroddiad gwreiddiol sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno manylion ffensys ar gyfer dibenion lliniaru gweledol a sŵn.

  Dywedodd Swyddog Arbenigol Iechyd yr Amgylchedd y byddai angen i Iechyd yr Amgylchedd ystyried manylion y ffensys a gyflwynwyd i sicrhau y byddai'r strwythur yn rhoi lliniarad sŵn boddhaol ac y byddent yn cynghori'r Swyddog Cynllunio yn unol â hynny. Nodwyd y byddai angen codi'r ffensys a gymeradwywyd cyn y byddai'r cynnig yn dod yn weithredol.

- **Amrywiad Amodau/Newid Defnydd yn y Dyfodol –** Gofynnodd Aelod am i'r cais gael ei ystyried yn awtomatig gan y Pwyllgor os oes unrhyw amrywiadau i unrhyw un o'r amodau hyn neu newid defnydd.

  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau na fedrai roi'r warant yma. Byddai unrhyw gais a dderbynnir yn cael ei gynnwys yn y rhestr wythnosol a gaiff ei chylchredeg i bob Aelod ac mae Aelodau Ward yn dal i fod â'r hawl i 'alw cais i mewn'.

- **Pont Bwyso –** I fynd i'r afael â mater o gonsyrn a godwyd, rhoddodd yr Arweinydd Tîm fanylion arfaethedig y bont bwyso.

- **Sŵn Cerbydau –** Er mwyn gwarchod amwynderau preswylwyr cyfagos, cadarnhaodd y cyfyngid cerbydau i fynd i mewn a gadael y safle yn ystod cyfnodau penodol rhwng 08.00 a 18.00 o'r gloch ar ddyddiau Llun i Gwener a 08.00 a

13.00 ar ddyddiau Sadwrn. Nodwyd na fyddai'r cwmni yn gweithredu ar ddyddiau Sul.

Dywedlodd Aelod y credai fod yr ymgeisydd wedii bod yn hyblyg iawn yn nhermau amserau gweithredu a hefyd wedi cytuno i wahardd y gweithgaredd ar wyliau banc. Gorffennodd drwy ddweud ei fod yn cefnogi'r cais.

- **Llwytho a Dadlwytho Cerbydau –** Cadarnhawyd y caiff cerbydau eu llwytho a'u dadlwytho tu allan i'r adeilad.

- **Llwch a Tharthau –** Hysbyswyd aelodau nad oedd y prosesau yn cynhyrchu llwch a gludir yn yr aer yn y safle. Byddai'r holl brosesau ailgylchu yn cael eu gwneud o fewn yr adeiladau.

  Dywedodd Aelod fod y mesurau yn rhoi mesurau ar waith i warchod amwynder preswylwyr cyfagos

- **Paledau –** Dywedodd Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu na fedrai roi gwarant am y nifer y paledau a gedwir ar y safle. Fodd bynnag, byddent yn cael eu lleoli yng nghefn yr adeilad ac ni fedrid eu gweld o'r ffordd a byddent yn cael eu sgrinio oddi wrth breswylwyr.

Cynigiwyd ac eiliwyd argymhelliad y swyddog h.y. rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar fân newidiadau i amodau yn ymwneud â maint y ffensio a'r oriau y byddai cerbydau'n mynd i mewn i'r safle.

Mewn pleidlais unfrydol,

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, **RHOI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a amlinellir yn adroddiad gwreiddiol y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu.

**Cais Rhif C/2019/0310 – 1 Hawthorn Glade, Tanglewood, Blaenau NP13 3JT – Cadw ac Ymestyn yr Ardal Decin Uchel**

Nodwyd y derbyniwyd gohebiaeth hwyr gan yr ymgeisydd i gefnogi'r cais.

Dywedodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu y cyflwynwyd y cais i gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ac y ceisiai gadw ac ymestyn ardal ddecin uchel o fewn gardd gefn yr annedd breswyl ar wahân

uchod. Nodwyd y cafodd y penderfyniad ar y cais ei ohirio yn y Cyfarfod diwethaf yn disgwyl ymweliad canfod ffeithiau i'r safle.

Cafodd y Pwyllgor ei atgoffa gan y Rheolwr Tîm mai argymhelliad y swyddog oedd gwrthod am y rhesymau dilynol:

- Oherwydd ei faint a'i fàs, ystyriwyd bod cadw'r decin uchel yn nodwedd oramlwg oedd yn cael effaith weledol niweidiol ar olwg y stryd ac yn groes i egwyddorion y Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

- Byddai'r strwythur yn achosi niwed materol i amodau byw defnyddwyr anheddau cyfagos drwy gael effaith ormesol ac achosi colled preifatrwydd.

Dywedodd y Rheolwr Tîm nad oedd y ffaith nad yw'r anheddau cyffiniol wedi gwrthwynebu'r cais yn nacau'r cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Cynllunio ac nad oedd yn dderbyniol yn absenoldeb gwrthwynebiad i gymeradwyo datblygiad sydd yn amlwg yn annerbyniol am resymau cynllunio dilys ac yn groes i bolisïau cynllunio a chyngor y Canllawiau Cynllunio Atodol.

Yn yr ymweliad safle gallodd Aelodau weld effaith lawn y strwythur fel y'i codwyd ynghyd â'r effaith y byddai unrhyw estyniad pellach yn ei gael. Roedd y datblygiad yn hollol annerbyniol ac yn tanseilio'r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd ar gyfer datblygu cartrefi nodyn 7 'Decin uchel, balconïau a waliau cadw' ac yn hollol groes i arfer cynllunio hirsefydlog a da. Roedd angen i aelodau ystyried enw da yr awdurdod yng nghyswllt egwyddorion cynllunio.

Derbyniwyd gohebiaeth hwyr ychwanegol gan yr ymgeisydd ac roedd swyddogion wedi ymateb i bob un o'r pwyntiau a godwyd. Nodwyd y cafodd y rhan fwyaf o bwyntiau sylw digonol yn yr adroddiad gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor blaenorol. Yr un sylw ychwanegol i gael ei wneud oedd, er bod swyddogion yn llwyr werthfawrogi'r problemau iechyd y gall yr ymgeisydd fod â nhw, nad oeddent yn ystyriaeth cynllunio materol.

Felly, yn seiliedig ar ystyriaeth ofalus o effaith y datblygiad, y cynsail o gymeradwyo datblygiad mor fawr a'r effaith ar yr eiddo cyffiniol, roedd swyddogion wedi dod i'r casgliad y dylid gwrthod caniatâd cynllunio.

Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau o'r Pwyllgor yng nghyswllt y cais.

- Croesawodd Aelod yr ymweliad canfod ffeithiau i'r safle gan y gallai Aelodau weld y strwythur o safbwynt gwahanol o gymharu i sut y mae'n edrych mewn ffotograffau a dywedodd y byddai'r decin yn gwneud ardal yr ardd yn rhwyddach ei defnyddio. Nodwyd fod Tanglewood yn cynnwys amrywiaeth o fathau annedd a bod datblygiadau eraill tebyg yn y safle.

  Ychwanegodd gan nad oedd y datblygiad wedi'i orffen, y byddai'n edrych yn amlycach nag yn ei gyflwr gorffenedig ac os y gosodid amod bod angen rhoi sgrinio priodol (h.y. plannu), byddai hyn yn cuddio'r strwythur o'r golwg.

  Daeth yr Aelod i ben drwy gynnig y dylai'r cais gael ei gymeradwyo yn amodol ar ddarparu sgrinio allanol.

- Dywedodd Aelod arall, er y derbyniai nad oedd problemau iechyd yr ymgeisydd yn ystyriaeth cynllunio materol, fel rhan o ofynion y Ddeddf Iechyd a Llesiant a'r Ddeddf Anabledd, bod angen ystyried amodau iechyd cyfredol a dyfodol yr ymgeisydd.

  Cyfeiriodd at y gwrthwynebiad a dderbyniodd fod y datblygiad yn ormesol ar gymdogion ond gwnaeth y pwynt nad oedd y cymdogion agosaf wedi cwyno.

  'Canllaw' yn unig yw'r Canllawiau Cynllunio Atodol ac nid polisi a gyda'r math hwn o adeiladu yn dod yn gynyddol boblogaeth (oherwydd topograffi yr ardal), dylai'r canllawiau gael eu hadolygu i roi ystyriaeth i ardaloedd decin. Daeth i ben drwy ddweud y byddai'n fodlon cefnogi'r cais cyn belled â bod yr ymgeisydd yn cynnal rhaglen sgrinio helaeth. Cefnogwyd y sylwadau gan Aelodau eraill.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau ei bod yn ddyletswydd ar Aelodau i ddod â datblygiad heb awdurdod i sylw'r Adran Cynllunio ac na ddylai'r datblygiadau heb awdurdod hynny gael eu defnyddio i roi cynsail.

- Dywedodd Aelod fod topograffi yr ardal yn hysbys pan brynwyd yr eiddo. Byddai'n cymryd rhai blynyddoedd i ddatblygu sgrinio os na phlannwyd perthi aeddfed. Credai

fod y datblygiad yn annerbyniol gan ei bod yn ddiolwg iawn, yn neilltuol o'r ddynesfa at y safle a bod amrywiaeth o ffyrdd eraill y gellid bod wedi cyflawni hyn.

Gofynnodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau i Aelodau gadarnhau os oeddent yn fodlon fod y decin yn strwythurol gadarn pe rhoddid caniatâd cynllunio.

- Dywedodd Aelod gan fod yr ymgeisydd wedi mynd i gymaint o gost y byddai wedi sicrhau fod y strwythur yn ddiogel, yn arbennig gan fod ganddo blant. Mater ar gyfer rheoliadau adeiladu oedd hyn.

  Roedd yr ardd yn uwch na'r decin a gyda'r sgrinio, gallai hyn rhoi llawer mwy o breifatrwydd i anheddau cyfagos nag sydd ganddynt ar hyn y bryd. Daeth yr Aelod i ben drwy gynnig y dylid rhoi caniatâd cynllunio.

Eglurodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu y pwyntiau dilynol:

- Nid oedd yn bersonol wedi'i darbwyllo y gellid sgrinio'r strwythur yn effeithlon gan gofio pe cymeradwywyd y cais, bod cymeradwyaeth yn cael ei roi ar gyfer estyniad pellach i'r strwythur.

- Gwnaed sylwadau niferus am ddecin a'r angen am ganllawiau. Mae'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru fod angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddecin sydd wedi'i godi 300mm (1tr) ac roedd o'r farn y byddai unrhyw beth dros y trothwy hwnnw yn effeithol ar gymdogion. Yn nhermau'r cais, roedd cyfanswm yr uchder yn 3.5m a dylid cadw hynny mewn cof.

- Mae gan yr awdurdod ganllawiau yn eu lle, sef y Canllawiau Dylunio Cartrefi, a gymeradwywyd ac a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor. Mae'r canllawiau yn cyfeirio at ddecin uchel, waliau cadw a balconïau. Felly, pe cymeradwyid y cais hwn, byddai'n uniongyrchol groes i'r canllawiau a ddefnyddiwyd yn y broses benderfynu yn y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys penderfyniadau apêl a chafodd hysbysiadau gorfodaeth eu gweini ar sail y canllawiau hynny.

- Defnydd o'r ardd – y dull gweithredu cywir fyddai wedi bod i ofyn i swyddogion am gyngor a fedrai fod wedi cynghori ar

opsiynau eraill.

- Nid oedd diffyg gwrthwynebiad i'r cynnig yn rheswm dros danseilio ymarfer cynllunio da.

- Cost a sefydlogrwydd statudol – nid oedd y costau yr aeth yr ymgeisydd iddynt yn ystyriaeth faterol i'r Pwyllgor, mae'n rhaid ystyried y cais ar ei ragoriaeth cynllunio. Yng nghyswllt sefydlogrwydd strwythurol, pe byddai Aelodau o blaid cymeradwyo'r cais, byddai'r Rheolwr Tîm yn annog gohirio'r penderfyniad i gael gwybodaeth am sefydlogrwydd strwythurol gan yr ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad terfynol.

- Dywedodd y Rheolwr Tîm, er ei bod yn parchu hawl Aelodau i gymryd barn wahanol i argymhelliad y swyddog ar gyfer gwrthod, gofynnodd i'r Pwyllgor feddwl am hygrededd cyngor swyddogion a roddwyd i breswylwyr eraill yn y Fwrdeistref Sirol a sut y byddai cymeradwyo'r cais hwn yn tanseilio hynny.

**Argymhelliad:**

Cynigiodd Aelod y dylai'r cais gael ei gymeradwyo yn amodol ar blannu perthi priodol i sgrinio'r ardal a bod gwybodaeth strwythurol yn cael ei gyflenwi.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y dylid gohirio'r cais pe byddai angen gwybodaeth strwythurol nes derbyn yr wybodaeth honno.

Yn dilyn trafodaeth am eglurhad, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth unwaith y rhoddwyd caniatâd cynllunio na fedrid ei ddiddymu heb ddilyn proses gyfreithiol gymhleth.

Dilynodd trafodaeth bellach pan ofynnodd Aelod os oedd cyfle ar gyfer dialog rhwng y partïon i newid ychydig ar y strwythur.

Cynghorodd y Rheolwr Tîm fod tri opsiwn ar gael i Aelodau:

- Cymeradwyo'r cais i gadw ac ymestyn y decin yn ddarostyngedig i amod am sgrinio priodol.

- Gohirio penderfynu ar y cais nes ceir adroddiad ar sefydlogrwydd strwythurol a phenderfynu ar y cam hwnnw

pa amodau allai fod yn briodol.

Nodwyd nad oedd swyddogion wedi gofyn i'r ymgeisydd i roi'r wybodaeth strwythurol ofynnol oherwydd y gost ddiangen y byddai hyn wedi ei achosi i'r ymgeisydd gan mai'r argymhelliad oedd gwrthod y cais.

- Gwrthod y cais.

  Dywedodd y swyddog y byddai gwrthod y cais yn galluogi'r ymgeisydd i apelio ac i Arolygydd Cynllunio annibynnol graffu'r gwrthodiad. Nodwyd, pe gwrthodid caniatâd cynllunio, y gallai'r ymgeisydd wedyn ailgyflwyno cais yn rhad ac am ddim ac y byddai cyfle ar gyfer dialog ar y pwynt hwnnw.

Mewn ateb i gwestiwn, cadarnhawyd y byddai hanner arall y decin yn effeithio ar annedd gyfagos. Cyfeiriodd y Rheolwr Tîm yr Aelodau at baragraff 1.6 yr adroddiad h.y. yn ogystal â chadw'r decin i'r de, mae'r cais yn ceisio ymestyn y decin na roddwyd caniatâd iddo, gan ei ddychwelyd ar hyd holl hyd cefn y ffin gyffiniol yn y cefn (gorllewin) am hyd o 17m x 6.5m (ar ei bwynt lletaf). Yn ymarferol, byddai'r decin dilynol yn lapio o amgylch yr ardd mewn siâp 'L'.

Dywedodd Aelod y bu'r cyfarfod safle yn ddefnyddiol iawn ac y cafodd Aelodau gyfle i weld y strwythur. Cynigiodd gymeradwyo argymhelliad y swyddog am wrthod y cais.

Cynigiodd Aelod arall welliant h.y. y dylid cymeradwyo caniatâd cynllunio yn amodol ar ddarparu sgrinio priodol. Eiliwyd y gwelliant hwnnw.

Wedyn cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar y gwelliant h.y. cymeradwyo caniatâd cynllunio yn amodol ar ddarparu sgrinio priodol.

**O blaid y Gwelliant – Cynghorwyr L. Winnett, G. Thomas, B. Thomas, W. Hodgins, J. P. Morgan, K. Rowson, D. Hancock**

**Yn erbyn y Gwelliant – Cynghorwyr B. Summers, M. Moore, D. Bevan, G. L. Davies, K. Pritchard, T. Smith, D. Wilkshire, B. Willis**

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i **<u>WRTHOD</u>** caniatâd cynllunio am y rhesymau a amlinellir yn adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu. | |
| **No. 8** | **<u>MEYSYDD AR GYFER SESIYNAU GWYBODAETH/HYFFORDDIANT AELODAU</u>**<br><br>**Ymweliad i Awdurdod Cynllunio cyfagos:**<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y trafodaethau blaenorol a gynhaliwyd i ymweld ag awdurdod cynllunio cyfagos.<br><br>Nodwyd y pwynt hwn.<br><br>**Tai Amlfeddiannaeth:**<br><br>Cynhelir digwyddiad hyfforddiant ar Dai Amlfeddiannaeth (HMO) yn ystod mis Mehefin.<br><br>**Canllawiau Cynllunio Atodol:**<br><br>Gofynnwyd am hyfforddiant gloywi ar yr uchod. | |
| **No. 9** | **<u>EITEM EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitemau eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rheswm dros y penderfyniad am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 10** | **<u>ACHOSION GORFODAETH A GAFODD EU CAU RHWNG 22 IONAWR 2020 A 27 CHWEFROR 2020</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol yng nghyswllt y prawf cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad fod yn eithriedig.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra trafodir yr eitem yma o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr Awdurdod) a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |